

# Yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020)

## SoNarR2020 Cofrestru coetiroedd asesu SMNR

Cyfoeth Naturiol Cymru

Adroddiad Terfynol

# Gwybodaeth am Cyfoeth Naturiol Cymru

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwylt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

## Tystiolaeth yn Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein strategaethau, penderfyniadau, gweithrediadau a chynghor i Lywodraeth Cymru ac eraill wedi'u tanategu gan dystiolaeth gadarn sydd o ansawdd uchel. Rydym yn cydnabod ei bod yn hanfodol bwysig meddu ar ddealltwriaeth dda o'n hamgylchedd newidiol.

Byddwn yn gwireddu'r weledigaeth hon drwy'r isod:

- Cynnal a datblygu sgiliau arbenigol technegol ein haelodau staff;
- Diogelu ein data a'n gwybodaeth;
- Sicrhau rhaglen ragweithiol o waith tystiolaeth sydd â digon o adnoddau;
- Parhau i adolygu ac ychwanegu at ein tystiolaeth er mwyn sicrhau ei bod yn addas ar gyfer yr heriau yr ydym yn eu hwynebu; a
- Rhannu ein tystiolaeth mewn modd agored a thryloyw.

Teitl: **SoNarR2020 Cofrestru coetiroedd asesu SMNR**

Adolygiadau gan Gymheiriaid: Adolygiad gan gymheiriaid mewnol ac allanol

Cyfyngiadau: Dim

# Cynnwys yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020)

Mae'r ddogfen hon yn un o grŵp o gynhyrchion sy'n ffurfio'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020). Dyma'r gyfres lawn o gynhyrchion:

**Crynodeb Gweithredol.** Rhagair, Cyflwyniad, Crynodeb a Chasgliadau. Cyhoeddwyd fel cyfres o dudalennau gwe ym mis Rhagfyr 2020

**Y Cofrestrau Adnoddau Naturiol.** Ysgogwyr, Pwysau, Effeithiau a Chyfleoedd i Weithredu ar gyfer wyth Ecosystem Eang. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ac fel ffeithlun rhyngweithiol ym mis Rhagfyr 2020

**Asesiadau yn erbyn pedwar nod Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.** Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Rhagfyr 2020:

Nod 1 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella

Nod 2 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae ecosystemau yn gallu gwrthsefyll newid disgwylidig ac anrhagweledig

Nod 3 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae gan Gymru leoedd iach i bobl sydd wedi'u gwarchod rhag peryglon amgylcheddol

Nod 4 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Cyfrannu at economi adfywiol, cyflawni lefelau cynhyrchu a defnydd cynaliadwy

**Asesiad o Fioamrywiaeth Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020.** Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021

**Asesiadau yn ôl Ecosystem Eang.** Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Mawrth 2021:

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ymylon Arfordirol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ffermdir Caeedig

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Dŵr Croyw

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Yr Ardal Forol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Mynyddoedd, Gweundiroedd a Rhosydd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Coetiroedd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Trefol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Glaswelltir Lled-naturiol

SoNarR2020 Cofrestru coetiroedd asesu SMNR

**Aseidiadau yn ôl Thema Drawsbynciol.** Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Mawrth 2021:

Aseiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ansawdd Aer

Aseiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Y Newid yn yr Hinsawdd

Aseiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Effeithlonrwydd Ynni

Aseiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Rhywogaethau Estron Goresgynnol

Aseiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Priddoedd a Defnydd Tir

Aseiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Gwastraff

Aseiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Effeithlonrwydd Dŵr

**Anghenion tystiolaeth diweddaredig yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.**  
Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021

**Acronymau a Rhestr Termau.** Cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020 a diweddarwyd ym mis Mawrth 2021

**Dyfyniad argymelledig ar gyfer y rhan hon o'r adroddiad:**

Cyfoeth Naturiol Cymru. 2020. SoNarR2020 Cofrestru coetiroedd asesu SMNR. Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Hawlfreintiau

Oni nodir yn wahanol, gall cynnwys yr adroddiad hwn gael ei ddefnyddio dan [drwydded Llywodraeth Agored](#)

Oni nodir yn wahanol, mae'r holl graffiau, mapiau, tablau a delweddau eraill yn © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl.

Yr holl fapiau sy'n cynnwys ffin Cymru:

© Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl. © Hawlfraint y Goron a chronfa ddata 2020. Rhif trwydded 100019741 yr Arolwg Ordians.

Yr holl fapiau sy'n cynnwys agweddau morol:

© Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl © y Goron Brydeinig ac OceanWise Ltd, 2020. Cedwir pob hawl. Rhif trwydded EK001-20120402. Ni ddylid eu defnyddio at ddibenion mordwyaeth.

# Coetiroedd Cofrestr Adnoddau Naturiol Asesiad o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020

## Nod 1: Mae stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella

### Nod 1: Cynnydd tuag at gyflawni'r nod

- 1.1. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu, ar y cyfan, bod y stociau o adnoddau naturiol sy'n gysylltiedig ag ecosystemau coetiroedd yn sefydlog, yn gyffredinol, ond nid yw'n bosibl nodi, â hyder, a ydynt yn cael eu diogelu, o ganlyniad i sbardunau newid (pwysau) presennol, a rhai tebygol yn y dyfodol. Fodd bynnag, gellir dweud, yn hyderus, bod posibilrwydd o wneud mwy i wella'r stociau hyn. Asesiad hyder: Uchel
- 1.2. Rhwng 2016 a 2019, cynyddodd ehangder coetiroedd o 306,595 hectar i 309,312 hectar (Forest Research 2019). Mae hon yn duedd gadarnhaol, er bod rhywfaint o'r cynnydd hwn o ganlyniad i newidiadau i waith mapio Stocrestr y Goedwig Genedlaethol.
- 1.3. Rhwng 2016 a 2019, cafodd 1,300 hectar o goetiroedd newydd eu creu yng Nghymru, a chafodd y gwaith hwn ei hwyluso drwy gyllid grant (Forest Research, 2019). Yn ystod yr un cyfnod, cafodd rhywfaint o goetiroedd eu colli'n barhaol mewn perthynas â darpariaeth ynni adnewyddadwy, adfer cynefinoedd agored, a datblygiad cymeradwy, ond nid oes tystiolaeth gyflawn ar gael i'w gwneud yn bosibl meintoli'r swm hwn.
- 1.4. Mae'r duedd gyffredinol rhwng 2001 a 2019, o ran rheoli coetiroedd yn unol â Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig, yn gadarnhaol: cynhaliwyd achrediad<sup>1</sup> Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd ers yr 20 mlynedd diwethaf, ac mae cyfanswm y coetiroedd ardystiedig dan berchenogaeth breifat yng Nghymru wedi cynyddu o 14% i bron 20% (Forest Research, 2019).
- 1.5. Cafodd 1,308,600 o dunelli gwyrdd o bren meddal eu tynnu dros y deng mlynedd diwethaf, ar gyfartaledd (Forest Research, 2019). Mae rhagolygon cyfredol yn rhagweld gostyngiad yn y pren a fydd ar gael (y Comisiwn Coedwigaeth, 2014).
- 1.6. Mae'r rhan fwyaf o glystyrau coetir mewn cyflwr ecolegol canolradd, ond mae llai na 5% ohonynt mewn cyflwr ffafriol (Stocrestr y Goedwig Genedlaethol, y Comisiwn Coedwigaeth, 2020). Mae pwysau gan blâu a chlefydau, llygredd aer, rhywogaethau estron goresgynnol a llysysyddion yn parhau.

---

<sup>1</sup> I Gynllun Ansawdd Coetiroedd y Deyrnas Unedig, sy'n fesur procsi o ymlyniad â Safon Coedwigaeth y DU  
SoNarR2020 Cofrestru coetiroedd asesu SMNR

1.7. Yn gyffredinol, mae tueddiadau cyflwr pridd mewn coetiroedd, ac eithrio ar gyfer mesoffawna (Emmett ac eraill, 2017), wedi bod yn sefydlog, a cheir tueddiadau cadarnhaol o ran pH pridd (Maskell ac eraill, 2019).

O'r bennod Defnydd Tiroedd a Phriddoedd

1.8. Coetiroedd sydd eisoes yn bodoli oedd y ddalfa nwyon tŷ gwydr fwyaf yn y sector defnyddio tir, newid defnydd tir a choedwigaeth (LULUCF) yn 2016–2018, o ganlyniad i'r ffaith iddynt dynnu carbon deuocsid o'r atmosffer (Stocrestr Nwyon Tŷ Gwydr y Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol, 2020).

O'r bennod Defnydd Tiroedd a Phriddoedd

## Nod 2: Ecosystemau gwydn

### Nod 2: Cynnydd tuag at gyflawni'r nod

2.1. Yn gyffredinol, rydym wedi asesu bod gwydnwch ecosystemau yn ganolig. Fodd bynnag, mae hyn yn celu gwahaniaethau sylweddol yn yr asesiad o briodoleddau unigol (sy'n amrywio rhwng isel/canolig/uchel), ac ar gyfer clystyrau brodorol ac anffrodorol.

Asesiad hyder: Uchel

2.2. Mae'r rhan fwyaf o glystyrau coetir mewn cyflwr ecolegol canolradd, ond mae llai na 5% ohonynt mewn cyflwr ffafriol (Stocrestr y Goedwig Genedlaethol, y Comisiwn Coedwigaeth, 2020).

2.3. Mae data newydd yn arbennig o sylweddol ar gyfer clystyrau anffrodorol, gan ddangos nad ydynt i gyd yn ungnwd unffurf a bod y mwyafrif ohonynt mewn cyflwr ecolegol canolradd (Stocrestr y Goedwig Genedlaethol, y Comisiwn Coedwigaeth, 2020).

2.4. Mae adroddiadau Erthygl 17 yn dangos bod cyflwr cynefin coetir pwysig yn sefydlog (ond nid mewn cyflwr da) yn dilyn tuedd hirdymor o ddirywiad yn ansawdd cynefinoedd, ond mae bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â choetiroedd yn parhau i ddirywio.

2.5. Mae'r dangosydd adar coetir (Ymddiriedolaeth Adareg Prydain) wedi gostwng 25% rhwng 1970 a 2017. Mae rhywogaethau coetir cyffredinol (sydd hefyd yn bridio mewn gerddi neu goetir ar ffermydd) wedi cynyddu 14%, yn gyffredinol, er y gwelwyd dirywiad o fwy nag 80% mewn rhywogaethau coetir arbenigol.

2.6. Mae poblogaethau o bathewod yng Nghymru wedi dirywio 79% rhwng 1993 a 2014 (McDonald, 2017).

## Nod 3: Lleoedd iach i bobl

### Nod 3: Cynnydd tuag at gyflawni'r nod

3.1. Mae tystiolaeth yn dangos pwysigrwydd coetiroedd o ran rheoli gwasanaethau, gan gynnwys lliniaru'r newid yn yr hinsawdd (Matthews, 2020), lliniaru perygl llifogydd (Asiantaeth yr Amgylchedd, 2017; Broadmeadow, 2018), a rheoli ansawdd aer

(Engledew ac eraill, 2019).  
Asesiad hyder: Uchel

- 3.2. Mae tystiolaeth yn dangos pwysigrwydd coetiroedd fel darparwyr gwasanaethau ecosystemau diwylliannol, gan gynnwys hybu llesiant meddyliol a chorfforol, dysgu ac addysgu, cydlyniad cymunedol, cysylltiad â natur a'r dirwedd, hamdden, twristiaeth a chyflogaeth (e.e. O'Brien, 2018; Forest Research, 2019; Coed Cadw, 2017; Llywodraeth Cymru, 2019).  
Asesiad hyder: Uchel
- 3.3. Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu'r angen i gyflymu'r gwaith o greu coetiroedd newydd, a'r buddion a geir o blannu mwy o goed, yn ei Chynllun Datgarboneiddio, ei Pholisi Adnoddau Naturiol, a'i Strategaeth ar gyfer Coetiroedd a Choed. Nododd Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2016 y gall plannu'r 'goeden gywir yn y man cywir' ddwyn buddion lluosog o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a llesiant ynghyd â bod yn rhan hanfodol o gyflawni targedau gostwng allyriadau Cymru. Asesiad hyder: Uchel
- 3.4. Ceir dimensiwn gofodol pwysig i'r cyflenwad o wasanaethau ecosystemau rheoleiddiol a diwylliannol, a'r galw amdanynt. Er enghraifft, mae cyfraniad coetiroedd i fesurau lliniaru perygl llifogydd yn ddibynnol iawn ar eu lleoliad, yn yr un modd ag yw'r defnydd hamdden y gwneir ohonynt gan bobl.
- 3.5. Cynhaliodd Saraev ac eraill (2020) adolygiad tystiolaeth o astudiaethau cyfrifo cyfalaf naturiol. Canfu'r adolygiad fod gwerthoedd llawer o wasanaethau ecosystemau coedwigoedd nad ydynt ar gyfer y farchnad (e.e. dal a storio carbon, hamdden, amsugno llygredd aer) yn sylweddol uwch (o bell ffordd) na gwerth nwyddau ar gyfer y farchnad fel pren (Beauchamp ac eraill, 2020).

## Nod 4: Economi adfywiol

### Nod 4: Cynnydd tuag at gyflawni'r nod

- 4.1. Mae pren yn ddeunydd adnewyddadwy a chynaliadwy y gellir ei ddefnyddio ar gyfer amrediad o nwyddau a chymwysiadau adeiladu. Mae defnyddio pren yn cloi carbon (yn achos nwyddau ag oes hir), mae'n disodli allyriadau carbon a gysylltir â mathau eraill o ddefnyddiau, mae ganddo'r potensial i leihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth (os defnyddir ffynonellau a dyfir yn lleol), a gall roi hwb i gymunedau lleol o safbwynt cyflogaeth a mentergarwch.
- 4.2. Nid oes data cyflawn ar gael ar gyfer meintioli, yn fanwl gywir, y cyfraniad y mae pren a dyfir yng Nghymru yn ei wneud i economi adfywiol, a'r defnydd mwy effeithlon o adnoddau naturiol yng Nghymru (Forest Research, 2019). Fodd bynnag, cydnabyddir bod potensial iddo wneud mwy o gyfraniad (Llywodraeth Cymru, 2019). Asesiad hyder: Canolig
- 4.3. Mae'r sector coedwigaeth yn cyfrannu cyfanswm gwerth ychwanegol gros o £664 miliwn y flwyddyn i economi Cymru (Llywodraeth Cymru, 2019), sy'n uwch na'r £499.3 miliwn y flwyddyn a adroddwyd yn Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2016.



- 4.4. Roedd rhwng 10,300 ac 11,000 o bobl yn gweithio yn y sector coedwigaeth yng Nghymru yn 2017 (Llywodraeth Cymru, 2019). Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys cyfraniad busnesau a gynhelir yn llwyr, neu'n rhannol, gan goedwigaeth, e.e. busnesau hamdden mewn coetiroedd.
- 4.5. Pennodd astudiaethau cyfrifo cyfalaf naturiol (Engledew, 2019) werth o £36 miliwn i wasanaethau darparu pren yng Nghymru yn 2017.